Clonc Clydau

Rhifyn 35 Ysgol Gynradd Clydau Tymor y Gwanwyn 2018

Eisteddfod 2018

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol ar ddydd Iau Mawrth 1af. Ein beirniaid eleni oedd Mrs Catrin Thomas gyda Miss H Standing yn cyfeilio. Cafwyd cystadlu brwd yn ystod y bore a dyma'r canlyniadau.

Llefaru Dan 8
1af – Gwenno Francis
2il – Lilly Robertson-Williams
Henri Owen
3ydd–Liam Young

Llefaru Dan 10
1af- Alana James
2il – Dafydd Davies
Awen Lewis
3ydd–Erin King

Llefaru Dan 12
1af – Elain James
2il – Jasmine Harris
Elliott Bailey-Williams
3ydd – Mitchell Sherwood

Unawd Dan 8
1af–Gwenno Francis
2il – Lilly Robertson-Williams
3ydd – Ruby King

Unawd Dan 10
1af – Charlie Jackson
2il – Erin King

Unawd Dan 12
1af –Elain James
2il – Jasmine Harris
3ydd – Elliott Bailey-Williams

Roedd pawb a ddaeth yn gyntaf neu yn ail yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch a gynhaliwyd yn Theatr y Gromlech, Crymych ar ddydd Mercher Mawrth 14eg. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus ac felly dymunwn llongyfarch pawb a wnaeth gynrychioli'r ysgol. Llongyfarchiadau i Gwenno Francis Blwyddyn 2 am ennill y drydedd wobr am yr Unawd Blwyddyn 2 ac iau ac Elain James Blwyddyn 6 am ennill y drydedd wobr am yr unawd Blwyddyn 5 a 6.

Yma Miss ! Yma Syr !

Unwaith eto y tymor yma cyflwynwyd tystysgrifiau i bob plentyn oedd â chanran presenoldeb o 98% neu uwch hyd at ddydd Mercher Mawrth 28ain. Felly dyma'r plant a lwyddodd i dderbyn tystysgrifau ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn:

98% - Elain James, Haydn Ditcher, Dafydd Davies, Erin King, Lilly Robertson-Williams, Llion Blethyn, Cerys Davies, Cerys Watkins, Katherine Young

99% - Alana James, Luke Smith,

100%- Scott Watts, Elliott Bailey-Williams, Cian Lewis, Callum Chambers, Charlie Jackson, Awen Lewis, Ruby King, Alana Jackson, Ethan Williams, Ripley Circus

Presenoldeb yr ysgol am dymor y Gwanwyn 2018 oedd 94.3%. Y darged ar gyfer y flwyddyn academaidd yw 95.3%.

Hoffwn fel ysgol ddymuno'n dda i Mrs M Davies a gorffennodd yn yr ysgol ar Chwefror 15fed a diolch i Mrs S Davies am gynorthwyo'r ysgol yn ystod yr ail hanner tymor.

Diwrnod Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg

Ar ddydd Mawrth Chwefror 27ain ymwelodd Sioe XL a'r ysgol er mwyn hybu sgiliau datrys problemau yng Ngwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg. Bu plant Dosbarth 1 yn ymchwilio i fagnedau hudol, Dosbarth 2 yn creu parc thema a Dosbarth 3 yn gweld effaith balwnau wedi'u rhewi.

Diwrnod Dydd Gwyl Dewi

Ar ddydd Mawrth Mawrth 1af dathlwyd Dydd Gwŷl Dewi gyda pob plentyn yn gwisgo dillad/gwisg Gymreig. Yn dilyn cinio bu pawb yn ymarfer eu sgiliau Dawnsio Gwerin.

Diwrnod Masnach Deg

Ar gyfer Pythefnos Marchnad Deg cynhaliwyd Diwrnod Masnach Deg yn yr ysgol ar ddydd Gwener Mawrth 9fed. Cafwyd y cyfle i ddysgu am waith Masnach de gar draws y Byd ynghyd a gofyn i bawb i wisgo rhywbeth melyn.

Digwyddiadau'r Tymor

Sgwad Sgrifennu yr Urdd

Mynychodd Elain James, Jasmine Harris a Cian Lewis Sgwad Sgrifennu yr Urdd ar ddydd Mawrth Ionawr 23ain yng Nghanolfan Hermon. Ar y nos Fawrth blaenorol bu'r tri yn gwylio ffilm 'Albi a Noa yn achud yr iwnifyrs' ym Mhentre Ifan gan mai ysgrifennu adolygiad ffilm oedd y dasg.

Sgwad Sgrifennu yr Urdd

Tîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 5 a 6

Tîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 3 a 4

Ffair Lyfrau Scholastic

Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Scholastic yn yr ysgol yn ystod wythnos ym mis Chwefror. Gwerthwyd gwerth £410 o lyfrau gyda'r ysgol yn derbyn gwerth £160 mewn comisiwn.

Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau i Elain James, Jasmine Harris, Cian Lewis a Elliott Bailey Williams o flwyddyn 5 a 6 a Dafydd Davies, Dafydd Owen, Awen Lewis ac Erin King o flwyddyn 4 a gynrychiolodd yr ysgol yn yr ail rownd o'r Cwis Llyfrau a gynhaliwyd ar ddydd Gwener Mawrth 23ain. Bu tîm Blwyddyn 5 a 6 yn astudio llyfr 'Dyddiadur Dripsyn – Y Storm Eira' a thîm Blwyddyn 3 a 4 yn astudio 'Arian Poced Morgan'.

Hyfforddiant Chwaraeon Sir Benfro

Yn dilyn llwyddiant sesiynnau Chwaraeon Sir Benfro yn ystod Tymor y Gwanwyn, bydd y sesiynnau yma yn parhau am dymor yr Hâf. Cynhelir y sesiynnau ar fore Iau a gofynnwn yn garedig bod gan eich plentyn/plant ddillad addas ar gyfer gwneud ymarfer corff allan ar iard yr ysgol.

Colofn yr Urdd

Cystadleuaeth Cogurdd

Ar nos Iau Chwefror 8fed bu dau ddisgybl – Elain James ac Elliott Bailey-Williams – yn paratoi Salad Asaidd Crensiog. Llongyfarchiadau i Elain James am ennill y gystadleuaeth. Bydd Elain yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf a gynhelir yn Ysgol y Preseli ar ddydd Llun Ebrill 23ain.

Cystadleuwyr Cogurdd

Tîm Pêl-droed Adrannai

Enillwyr Chwaraeon Dan Do

Twrnament Pêl-droed i Adrannau

Cynhaliwyd y twrnament ar ddydd Iau Chwefror 15fed yng Nhganolfan Hamdden Crymych. Aelodau'r tîm pêl-droed oedd Cian Lewis, Elliott Bailey-Williams, Kaeysea Singh, Luke Smith, Haydn Ditcher a Mitchell Sherwood. Llongyfarchiadau i bawb am chwarae yn arbennig.

Adran yr Urdd

Yn ystod y tymor cynhaliwyd yr Adran ar Nos Fawrth gyda'r plant yn derbyn y cyfleoedd i ddathlu'r Pasg, ymarfer sgiliau syrcas a Bingo. Bydd yr Adran yn ail-ddechrau ar ôl Gwyliau'r Pasg ar y nosweithiau canlynol:- Nos Fawrth Ebrill 24ain, a Mai 8fed, 15fed a 22ain.

Chwaraeon Dan Do yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r wyth cystadleuydd –Elain James, Jac Ifans-Lloyd, Cian Lewis, Awen Lewis, Dafydd Davies, Charlie Jackson, Alana James a Dyfan Ifans-Lloyd a fynychodd y Chwaraeon Dan Do yr Urdd ar ddydd Sadwrn Ionawr 20fed. Dyma'r canlyniadau:-

1af – Awen Lewis – Draffts Blwyddyn 4 ac iau.

2il – Awen Lewis – Tenis Bwrdd Blwyddyn 4 ac iau

2il – Tîm Curling Blwyddyn 4 ac iau – Awen Lewis, Dafydd Davies, Charlie Jackson ac Alana James.

Eitemau Celf a Chrefft

Cofiwch fod angen cyflwyno eich eitemau Celf a Chrefft ar ddydd Mawrth Ebrill 24ain ar gyfer eu rhoi yn yr Eisteddfod. Y thema yw Chwedlau a chofiwch fod yn rhaid i unrhyw ysgrifen fod yn Gymraeg.

Dyddiadau i'r Dyddiadur:

Mabolgampau yr Urdd ar ddydd Iau Gorffennaf 5ed (tywydd yn caniatau)

Ymweliad â Chaerdydd – Gorffennaf 9fed i 11eg. (Blynyddoedd 5 a 6 yn unig)

Cyngor Cymreictod

Yn ystod y tymor bu'r disgyblion Cyfnod Sylfaen yn cystadlu yng nghystadleuaethau ysgrifennu Eisteddfod Crymych, pawb yn cystadlu yn Eisteddfod yr ysgol a chynhaliwyd Ffair Lyfrau Cymraeg ar ddiwedd y tymor. Ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn gwobrwywyd Ethan Williams ac Awen Lewis yn Gymro a Chymraes y Tymor. Unwaith eto diolch i Glwb Gwawr Clydau am noddi y tariannau i'r disgyblion.

App yr Ysgol – Cofiwch er mwyn derbyn y newyddion diweddaraf am yr ysgol a bod yn ymwybodol am ddigwyddiadau'r ysgol, edrychwch ar app yr ysgol ar Ourschoolsapp. Er mwyn lawrlwytho'r app mae angen mynd I'r app store yna chwilio am ourschoolsapp; ei lawrlwytho a chwilio am Ysgol Clydau.

Ysgol Iach

Unwaith eto gyda'r Hâf yn agosau a nifer o dripiau wedi'i gynllunio hoffwn fel ysgol eich hatgoffa i gofio roi eli haul ar eich plentyn cyn iddo/iddi ddod i'r ysgol ac yn bwysicach cofiwch roi **het haul** i'ch plentyn i'w wisgo ar gyfer amser chwarae. Diolch.

Byddwn unwaith eto eleni yn cynnal digwyddiad Cerdded i'r Ysgol ar ddydd Gwener Mai 25ain. Fel yn y blynyddoedd blaenorol byddwn yn cwrdd ger Y Hen Swyddfa Bost ac yn cerdded i lawr i'r ysgol. Gobeithio y cawn yr un gefnogaeth a'r blynyddoedd blaenorol.

Gweithdŷ Sbectrwm

Yn ddiweddar ymwelodd Vicky Glanville a'r ysgol yn rhan o brosiect Sbectrwm. Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cwblhau gweithgareddau amrywiol i'w cyflwyno i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2.

Ymweliad yr Heddlu

Ymwelodd PC Helen Llywelyn â'r ysgol ar ddydd Mawrth Mawrth 15fed er mwyn trafod pynciau ar Ymddygiad Anghymdeithasol. Siaradodd am yr hyn sy'n dda a drwg gyda dosbarth 1 ac am sut i ymddwyn yn y Gymuned gyda plant Blwyddyn 3 a 4. Trafododd am Ymddygiad Anghymdeithasol gyda plant Blwyddyn 5 a 6.

Ymweliad PC Helen Llywelyn

Ymweliad y Frigad Dân

Ar ddydd Mercher Chwefror 14eg ymwelodd Mr Gareth Jones, Swyddog Brigad Dân Gorllewin a Chanolbarth Cymru â'r ysgol. Bu yn trafod gwaith y Brigad Dân â disgyblion Blwyddyn 2 a 3 gan arddangos y dillad maent yn eu gwisgo.

Wedyn bu'n trafod pwysigrwydd gosod larwm tân gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 gan ofyn iddynt greu Cynllun Allanfa mewn achos o dân mewn tŷ. Hefyd bu'n siarad am bwysigrwydd gosod larwm tân mewn mannau synhwyrol yn y tŷ.

.

Ymweliad Mr Gareth Jones, Swyddog Frigad Dan Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyngor Ysgol

Diwrnod Sport Relief

Penderfynodd y Cyngor Ysgol cynnal diwrnod Sport Relief ar ddydd Gwener Mawrth 23ain gyda pawb yn gwisgo dillad ei hunain. Yn ystod y prynhawn bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiolmegis Takwando ac Aerobics.

Llwyddwyd i gasglu £40 tuag at yr elusen.

Arian Cinio

Er mwyn hwyluso gwaith gweinyddol gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn rhoi'r arain cinio i mewn ar y dydd Llun. Hefyd yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran Arlwyo gofynnwn yn garedig i chi gynnwys arian cinio yn unig mewn amlenni Leni'r Genhinen a fydd unrhyw or-daliad yn cael ei gredydu.

Arian Tost

Gofynnir yn garedig i chi roi arian tost disgyblion y Cyfnod Sylfaen mewn waled/pwrs gan sicrhau nad yw'n mynd ar goll.

Newyddion C.A.R Ysgol Clydau

Ar nos Wener Mawrth 23ain cynhaliwyd ein Bingo Pasg. Gwnaethpwyd elw o £419.50. Enillwyr y noson oedd:-

Gem 1 – Llinell – Nans Phillips Tŷ - Mam gu Ffion

Gem 2 – Llinell – Cian Lewis Tŷ - Mitchell Sherwood

Gem 3 – Llinell – Callum Chambers Tŷ - Margaret Thomas

Gem 4 – Llinell – Gwenda Savins Tŷ - Dai Evans

Gem 5 – Llinell – Rob Smith Tŷ - Kirby Hutton

Gem Plant –Llinell-Kaeysea Singh Tŷ -Sarah Ditcher

Prif Gem – Llinell – Kirby Hutton Tŷ – Gaynor Evans

Unwaith eto hoffwn eich hatgoffa os ydych yn prynu nwyddau dros y we â chwmnioedd Argos, Next, Amazon, Debenhams, John Lewis, HMV a dros 600 o gwmnioedd arall rydych yn gallu cyfrannu tuag goffrau C.A.R. Ysgol Clydau drwy gofrestru am ddim ar www.easyfundraising.org.uk gyda Ysgol Clydau School PTA fel eich elusen.

Dyddiad i'r Dyddiadur – Cyfarfod C.A.R Ysgol Clydau – Nos Fawrth Mai 15fed am 7:00yh.
- Taith Gerdded a Barbeciw – Nos Wener Mehefin 22ain.
- Dawns yr Hâf – Nos Iau Gorffennaf 19eg – Canolfan Clydau am 6:30yh

Dyddiadau i'r dyddiadur:
23/04/2018 – Rownd Sirol Cystadleuaeth Cogurdd – Ysgol y Preseli
24/04/2018 – Gala Nofio Clwstwr Ysgolion y Preseli.
25/04/2018 – Cyflwyno eitemau Celf a Chrefft yr Urdd
02-09/05/2018 – Profion Cenedlaethol Cynulliad Cymru. 02/05/18 – Cymraeg 03/05/18 – Saesneg
04/05/2018 – Rhifedd Gweithdrefnol 08/05/2018 Rhifedd Rhesymu
11/05/2018 – Drama Mewn Cymeriad
15/05/2018 – Cyfarfod C.A.R Ysgol Clydau am 7:00yh
18/05/2018 – Ffair Hâf 2:00-4:00pm
21/05/2018 – Jambori yr Urdd Cyfnod Sylfaen
22/05/2018 – Gweithdŷ PC Helen Llywellyn
25/05/2018 – Bore Cerdded i'r Ysgol
28/05/2018 – 01/06/2018 – Gwyliau Hanner Tymor
12/06/2018 – Twrnament Criced, Glandy Cross
22/06/2018 – C.A.R Ysgol Clydau – Taith Gerdded a Barbeciw
25-27/06/2018 – Cwrs Beicio Diogel (Blwyddyn 5 a 6) Angen dod a beic I'r ysgol ar 21/06/2018 er mwyn ei wirio
29/06/2018 – Mabolgampau Ysgol
05/07/2018 – Mabolgampau'r Urdd
06/07/2018 – Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 (Ysgol y Preseli)
09-11/07/2018 - Ymweliad a Chanolfan yr Urdd Bae Caerdydd (Blynyddoedd 5 a 6)
18/07/2018 – Trip Blynyddol
19/07/2018 – Dawns yr Hâf – Canolfan Clydau, Tegryn am 6:30yh
20/07/2018 – Diwedd Tymor
23/07/2018 – Diwrnod HMS
24/07/2018 – Diwrnod HMS

Bydd yr ysgol yn ail agor ar ddydd Mawrth Ebrill 17eg.

Hoffai Staff Ysgol Clydau ddymuno Pasg i holl rieni/gwarcheidwyr yr Ysgol.